

# Cynhyrchion CBD sy'n gysylltiedig â cheisiadau bwyd newydd

Y rhestr o gynhyrchion bwyd CBD sydd ar werth yng Nghymru ac yn Lloegr yr ydym ni'n cynghori y dylid caniatáu iddynt aros ar y farchnad nes bod penderfyniad ar eu hawdurdodi.

Rhaid awdurdodi bwydydd newydd, fel cynhyrchion bwyd CBD, cyn eu rhoi ar y farchnad i sicrhau eu bod wedi bod trwy asesiad diogelwch annibynnol. Mae'n rhaid gwneud ceisiadau i awdurdodi cynhyrchion bwyd CBD gan fod y cynhyrchion hyn yn cael eu hystyried yn fwyd newydd heb unrhyw hanes o'u bwyta cyn mis Mai 1997.

Er mwyn sicrhau bod y farchnad gyfredol yn cydymffurfio, fe ofynnwn ni i'r diwydiant gyflwyno ôl-geisiadau am gynhyrchion CBD a oedd ar werth ar 13 Chwefror 2020. Rydym ni'n cynghori y dylid caniatáu i'r cynhyrchion hynny sy'n gysylltiedig â cheisiadau sydd wrthi'n mynd trwy camau cychwynnol y broses awdurdodi bwydydd newydd barhau ar y farchnad hyd nes y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar eu hawdurdodi.

Gallwch chi ddod o hyd i ragor o wybodaeth am y broses awdurdodi ar ein tudalen [Rhoi cynnyrch wedi'i reoleiddio ar y farchnad](#).

## Rhestr o gynhyrchion CBD

Mae'r rhestr wedi'i rhannu'n ddwy adran sy'n cynnwys cynhyrchion sy'n gysylltiedig â cheisiadau sydd un ai:

- wedi'u dilysu yng ngham cychwynnol y broses cyn mynd ymlaen i'r asesiad diogelwch
- 'wedi'u dal yn ôl' (on hold), gydag ymgeiswyr wedi nodi cynlluniau cadarn i gwblhau'r asesiad risg ond heb gyflenwi'r holl wybodaeth sydd ei hangen i barhau yn y broses.

Ar gyfer y ddau gategori, mae'n rhaid bod ceisiadau wedi'u cyflwyno erbyn 31 Mawrth 2021. Ni fydd cynhyrchion sy'n gysylltiedig â cheisiadau a wneir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hychwanegu at y rhestr.

Mae ymgeiswyr wedi darparu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys ar y rhestr hon. Er ein bod wedi gwirio'r dystiolaeth a ddarparwyd bod y cynhyrchion hyn ar werth cyn 13 Chwefror 2020, ni ellir dal yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gyfrifol am wallau neu hepgoriadau o'r rhestr hon.

Rydym ni wedi defnyddio'r dull pragmatig o awgrymu y gall cynhyrchion ar y rhestrau hyn aros ar y farchnad nes bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar eu hawdurdodiad neu ba mor dderbyniol yw'r wybodaeth a ddarperir. Fodd bynnag, nid yw'r ASB yn cymeradwyo gwerthiant unrhyw gynhyrchion bwyd CBD, p'un a ydynt ar y rhestr ai peidio.

Bydd y rhestr yn cael ei diweddarau'n rheolaidd gyda chynhyrchion pellach wrth i ni adolygu ceisiadau addas a gyflwynwyd cyn 31 Mawrth 2021.

Lawrlwytho'r rhestr o gynhyrchion CBD

## Y broses o ddilysu ceisiadau CBD

Mae dilysu yn gofyn gwirio bod cais yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ganiatáu iddo symud ymlaen i'r broses awdurdodi. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys tystiolaeth o asesiad risg. Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth hon ar goll, ni ellir dilysu'r cais yn gyfreithiol.

Mae'n bwysig nodi nad yw dilysu yr un peth ag awdurdodi. Nid oes unrhyw sicrwydd y bydd cais sydd wedi'i ddilysu yn cael ei awdurdodi. Nid yw ychwanegu cynnyrch CBD at y rhestr hon yn golygu ei fod wedi'i awdurdodi neu ei gymeradwyo, dim ond bod yr ymgeisydd yn ceisio awdurdodiad.

## Cynhyrchion sydd 'wedi'u dal yn ôl'

Mae rhai ceisiadau nad ydynt wedi'u dilysu yn bwrw ymlaen yn dda tuag at ddarparu'r wybodaeth hon, gyda thystiolaeth o gynlluniau i gwblhau'r broses asesu risg i ansawdd derbyniol a gyda dyddiad cau clir cytunedig i'w gyflwyno i'w ddilysu. Mae cynhyrchion sy'n gysylltiedig â'r ceisiadau hyn wedi'u cynnwys yn y categori 'dal yn ôl' os ystyrir bod gweddill y cais yn addas i'w ddilysu.

Bydd y cynhyrchion hyn yn cael eu tynnu o'r rhestr a'r broses os na ddarperir yr wybodaeth ofynnol mewn amserlen dderbyniol ac i ansawdd addas. Mae hyn yn golygu na fyddant yn cael aros ar y farchnad os nad yw'n debygol y bydd yr wybodaeth angenrheidiol yn cael ei darparu er mwyn iddynt barhau trwy'r asesiad diogelwch.

## Gorfodi

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am orfodi'r ddeddfwriaeth ond rydym ni wedi gofyn iddynt ystyried y cynhyrchion ar y rhestr gan fod cyflenwyr cynhyrchion o'r fath wedi dangos diddordeb mewn symud tuag at gydymffurfio. Disgwylwch i gwmnïau nad ydynt wedi gwneud cais am awdurdodiad neu'r rhai a wrthodwyd o'r broses dynnu eu cynhyrchion o'r farchnad yn wirfoddol. Os na fydd hyn yn digwydd, gall awdurdodau lleol ddefnyddio'r rhestr i lywio eu penderfyniadau gorfodi. Mae hefyd ar gael i fanwerthwyr wybod statws eu cyflenwyr.

Mae cynhyrchion bwyd newydd CBD yn ddarostyngedig i gyfreithiau bwyd. Os oes unrhyw bryderon am ddiogelwch y cynhyrchion, gellir eu tynnu oddi ar y rhestr ar unrhyw adeg a chymryd camau gorfodi priodol.

## Cysylltu â ni

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y rhestr o gynhyrchion CBD, cysylltwch â ni trwy anfon e-bost at [novelfoods@food.gov.uk](mailto:novelfoods@food.gov.uk).

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y broses awdurdodi at [regulatedproducts@food.gov.uk](mailto:regulatedproducts@food.gov.uk)